Cynllun Yr Iaith Gymraeg

yn Chubut

# ADRODDIAD AROLWG 2000

gan

**Dr. Robert Owen Jones**

i

**Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Canolfan Dysgu Cymraeg
42, Plas y Parc
Caerdydd
CF10 3BB
Rhif ffôn: (029) 20874710

# CRYNODEB

- Sefydlwyd pwyllgorau ysgol lleol a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldebau gweinyddol, trefniadol, masnachol, a chyllidol maes o law.

- Cafodd y prosiect effeithiau cadarnhaol ar y cymunedau yn addysgol, yn ddiwylliannol, ac yn gymdeithasol. Oherwydd y brwdfrydedd a'r ymroddiad ychwanegwyd yn gadarnhaol at ddelwedd y Gymraeg drwy drwch cymdeithas.

- Rhoddwyd mwy o le i'r Gymraeg ac i ddiwylliant Cymraeg ar y cyfryngau – radio a theledu.

- Dechreuwyd prosiect ymchwil ar lên y Cymry yn y Brifysgol yn Nhrelew. Bwriedir dechrau dosbarthiadau Cymraeg o dan nawdd Uned y Myfyrwyr yn 2001.

- Mae cylchlythyrau'r dosbarthiadau Cymraeg *Llais yr Andes* a *Adlais* yn mynd o nerth i nerth.

- Ymfalchïa dosbarthiadau'r Andes yn y ffaith mai un ohonynt hwy a enillodd wobr Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Llanelli eleni.

- Cofrestrwyd 742 o fyfyrwyr eleni sef cynnydd o 12% ar gyfanrif 1999.

- Yn ystod y flwyddyn cynyddodd nifer y dosbarthiadau o 71 i 82 a chododd yr oriau dysgu o 107 awr yr wythnos i 147 awr yr wythnos.

- Roedd amrediad ac ansawdd y cyrsiau yn foddhaol iawn. Dysgir cyrsiau Safon 3 hyd 8 bron yn gyfangwbl gan athrawon y prosiect. Ni welwyd cynnydd yn nifer y tiwtoriaid lleol nac ychwaith yng nghyfanswm yr oriau a ddysgir ganddynt. Mae hyn yn parhau yn wendid sylfaenol.

- Mae rhan helaethaf y dysgu yn ddwys ac eithrio cyrsiau Safon 1 i blant sy'n gysylltiedig ag ysgolion cynradd lleol.

- Bydd angen ystyried fframwaith gredydau ar gyfer y dyfodol. Dichon y gellir mabwysiadu ac addasu fframwaith asesu debyg i un Rhwydwaith y Coleg Agored a gellid paratoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau *Defnyddio'r Gymraeg* a *Defnyddio'r Gymraeg Uwch* C.B.A.C.

- Dechreuwyd dosbarthiadau ôl-feithrin tra llwyddiannus yn Gaiman. Awgrymir canolbwyntio ar y gwaith hwn yn y dyfodol a'i ymestyn i Drelew ac i'r Andes pan fydd yr amser yn briodol i wneud hynny.,

- Arbrofwyd â chylchoedd siarad anffurfiol eleni a rhoddwyd llawer mwy o bwyslais ar bontio'r gagendor rhwng y dosbarth a'r gymdeithas.

- Gwerthuswyd y cyrsiau drwy gyfrwng holiadur. Roedd yr ymatebion yn dra chadarnhaol.

- Cafwyd cynnydd o 54% ar gyfanrif 1999 ymysg y bobl ieuainc. Roedd hyn yn galongol iawn.

- Dangosodd yr ystadegau fod cyfran uchel o fyfyrwyr yn parhau â'r dysgu o un flwyddyn i'r nesaf.

- Roedd peth rhagfarn yn erbyn tiwtoriaid lleol a llawer o'r farn bod yr athrawon o Gymru yn well. Bydd yn rhaid newid y fath ymagweddiad. Dichon mai hyfforddiant arbenigol fydd yr ateb.

- Mae symudoledd myfyrwyr – cwrs dwys Llanbedr Pont Steffan – yn hynod o bwysig. Yn ystod cyfnod y prosiect mynychodd wyth ar hugain o fyfyrwyr (24 dan nawdd y prosiect) y cwrs dwys wyth wythnos yn Llanbedr Pont Steffan. Aeth cyfran uchel o'r rhain yn ôl gan gyfrannu i weithgareddau'r dosbarthiadau neu i'r bywyd Cymraeg yn eu hardaloedd eu hunain. Credir bod yr agwedd hon ar waith y prosiect yn hynod o effeithiol.

- Derbyniodd yr athrawon gefnogaeth ragorol yn eu cymunedau eleni. Rhoes cyd-lynydd lleol y prosiect, Sra Luned Gonzalez lafur diflino i'r gwaith. Heb ei hanogaeth, ei chynghorion, a'i gweledigaeth, dichon na fyddai'r prosiect wedi llwyddo cystal ag y gwnaeth.

## CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG YN CHUBUT - 2000

Cynhaliwyd yr arolygaeth eleni rhwng 6 Hydref a 22 Hydref. Treuliwyd pum niwrnod llawn yn ymweld â thrawsdoriad o ddosbarthiadau yn Esquel a Threfelin ac yn ogystal cynhaliwyd trafodaethau â'r pwyllgorau lleol. Mynychwyd gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg yn y ddwy dref yn bennaf er mwyn cael cyfle i gwrdd â Chymry Cymraeg yn ogystal â dysgwyr mewn cyd destun cymdeithasol dilys. Roedd sgyrsiau ag unigolion yn dra gwerthfawr er mwyn ceisio mynd o dan groen y gymuned i fesur a phwyso effaith yr Ysgol Gymraeg ar fywyd cymunedau'r Andes. Treuliwyd un diwrnod ar ddeg yn Nyffryn Camwy a mynychwyd trawsdoriad cynrychioliadol o ddosbarthiadau ym mhob un o'r canolfannau dysgu – Gaiman, Dolavon, Trelew, Rawson, a Phorth Madryn. Unwaith eto manteisiwyd ar bob cyfle i geisio mesur a phwyso dylanwad y prosiect ar y cymunedau lleol. Cafwyd cyfle i ymuno mewn sawl gweithgarwch cymdeithasol ond yn ogystal cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol i drafod y prosiect gyda chynrychiolwyr lleol yn Nolavon, Gaiman, a Threlew. Llwyddwyd i gael cryn adborth hefyd mewn sgyrsiau anffurfiol ag unigolion.

Pwrpas y cyfarfodydd cyhoeddus yn yr Andes, Gaiman, a Threlew oedd rhoi cyfle i mi allu rhoi adborth i'r gymuned, awgrymu strategaeth, a derbyn cwestiynau o'r llawr. Bu'r tri chyfarfod yn hynod o fuddiol ac eisoes y maent yn dechrau dwyn ffrwyth. Sefydlwyd pwyllgor Ysgol Gymraeg yn Nhrefelin, Esquel, Gaiman, a Threlew, a'u gwaith fydd :

- ysgwyddo cyfrifoldeb am drefnu dosbarthiadau 2001
- hysbysebu'r dosbarthiadau yn eu cymunedau
- trafod y ddarpariaeth gan sicrhau fod dosbarthiadau ar gael ar gyfer pob safon ac oedran
- ystyried strwythur y cyrsiau presennol a phenderfynu ar strategaeth i'r dyfodol
- trefnu lleoliadau cyfleus ar gyfer y dosbarthiadau
- targedu haenau oedran penodol, e.e. pobl ieuainc os nad yw'r haen honno wedi ei chynrychioli'n dda yn y dosbarthiadau hyd yma
- estyn cefnogaeth a chymorth i ddarpar diwtoriaid lleol gan sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant
- bod yn gyfrifol am ddewis darpar diwtoriaid addas i dderbyn hyfforddiant yng Nghymru yn ystod gweddill cyfnod y prosiect
- bod yn gyfrifol am ddewis myfyrwyr addas i fynychu'r Cwrs Dwys Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan
- bod yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith gyllidol er mwyn gallu cynnig cydnabyddiaeth deilwng i diwtoriaid lleol

Yn y cyfarfod yn Nhrelew nodwyd bod rhai bylchau yn y ddarpariaeth ac erbyn hyn unionwyd y diffygion hynny.

## Y Prosiect a'r Cymunedau

Nid gormodaeth yw honni bod pedair blynedd y prosiect wedi cael effaith cadarnhaol amlwg ar safle a chymdeithaseg y Gymraeg o fewn y cymunedau. Oddi ar ddechrau'r ugeinfed ganrif bu'r Gymraeg yn gwbl glwm wrth grefydd a bywyd y capel. Ar y pryd bu hynny'n waredigaeth iddi. Defnyddid yr iaith yn gyhoeddus mewn cywair a ystyrid yn bwysig ac yn urddasol. Roedd y cynulleidfaoedd yn cael cyfle i glywed a defnyddio trawsdoriad cyweriol eithaf eang yn y Gymraeg. Roedd hi'n gyfrwng trafod crefydd, yn gyfrwng addysg i'r plant o fewn yr ysgol Sul, yn gyfrwng trafod cerddoriaeth a diwylliant yn gyffredinol yn yr ysgol gân, yn y côr, yn y cyrddau cystadleuol, y ddrama, y cyngherddau a'r eisteddfodau. Mewn gwirionedd roedd mewn bodolaeth drawsdoriad eithaf da o sefyllfaoedd lle arferid defnyddio'r Gymraeg. Roedd modd byw bywyd cymdeithasol cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar yr un pryd daeth nifer o sefyllfaoedd eraill yn Sbaeneg glwm megis chwaraeon, addysg ffurfiol, y gyfraith, llywodraeth leol, a sefyllfaoedd mwy seciwlar eu natur a chan fod y Gymraeg yn cael ei chysylltu â chrefydd ac a gweithgareddau'r capel dechreuodd y digapel o dipyn i beth ymwrthod â'r iaith. Gyda'r cefnu cynyddol ar grefydd yn ystod yr ugeinfed ganrif Sbaenaeddiwyd yr union deuluoedd a oedd ynghynt yn gwbl Gymreig eu gogwydd ac yn Gymraeg eu hiaith. Ar ddechrau nawdegau'r ganrif ddiwethaf aelodaeth y capeli Cymraeg oedd cynhalwyr yr iaith a'r diwylliant Cymreig ac roedd yr aelodaeth honno ar y cyfan yn bobl hŷn o fewn y cymunedau. Felly delwedd hŷn a hen ffasiwn oedd i'r Gymraeg yn gyffredinol.

Yn ystod y prosiect daeth y Gymraeg allan o'i chragen grefyddol a bellach clywir hi'n gyhoeddus ar y strydoedd, yn y siopau, yn y dafarn, ar y bws, yn y banc, yn y llyfrgell, a'r swyddfa bost. Nid iaith hen bobl mohoni bellach, ac mae'r ieuenctid sy'n dysgu'r iaith yn awchus i ymarfer eu Cymraeg ar bob achlysur posibl. Mae'r Gymraeg yn dechrau tyfu'n gyfrwng cymdeithasu naturiol a normal a'r to hŷn bellach yn dysgu peidio â throsi i'r Sbaeneg wrth gyfarch cenedlaethau iau.

Mae i'r Gymraeg yn awr broffil llawer uwch na chynt o fewn y cymunedau. Rhoes y dosbarthiadau statws cymdeithasol uwch i'r iaith ond bu gweithgarwch cymdeithasol y tiwtoriaid yn dra llesol gan iddynt bwysleisio drwy'r amser nad ymarfer academaidd yn unig oedd dysgu'r Gymraeg ond gweithgarwch cymhwysol o fewn y cymunedau eu hunain. Rhestrir isod rai o'r sylwadau a wnaethpwyd ac yn wir rai datblygiadau na allai fod wedi gwreiddio o gwbl oni bai am fodolaeth y prosiect.

- Daeth y dosbarthiadau Cymraeg yn fan cyfarfod i'r Cymry – yn gyfrwng cymdeithasol i ddod â hwy at ei gilydd – i asio'r gwahanol garfanau o fewn y gymuned â'i gilydd. Yn yr Andes tystir bod yr Ysgol Gymraeg wedi bod yn gyfrwng i sefydlu hunaniaeth Gymreig yn y cymunedau unwaith eto. Bu'r dosbarthiadau yn gyfrwng i ddeffro ymwybyddiaeth Gymreig a gwella iaith rhai nad oeddynt wedi siarad y Gymraeg ers dyddiau eu plentyndod.

- Rhoes y dosbarthiadau gyfle i'r 'genhedlaeth goll' allu dysgu'r Gymraeg. Dyma'r rhai na throsglwyddodd eu rhieni y Gymraeg iddynt.

- Bu'r dosbarthiadau yn gyfrwng i ymestyn gorwelion rhai nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad blaenorol â'r Gymraeg.

- Bu'r dosbarthiadau yn gyfrwng i hyrwyddo diwylliant Cymraeg. Sefydlwyd côr yn Nhrefelin ac yn Nhrelew.
- Honnir bod gwell graen ar yr eisteddfodau a mwy o weithwyr ieuainc yn barod i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae cynnyrch yr Ysgol Gymraeg yn amlwg ymhlith aelodaeth y pwyllgorau. Roedd trefnydd cyfredol Eisteddfod yr Ifanc yn gyn-fyfyriwr o'r dosbarth Cymraeg yn Gaiman. Bu hefyd ar gwrs dwys yn Llanbedr Pont Steffan. Mae'n gwbl rhugl ei Chymraeg. Nodwyd hefyd fod ansawdd y Gymraeg ar lwyfan yr Eisteddfodau wedi gwella'n arthurol.

- Dywed arweinyddion y corau ei bod hi'n haws dysgu caneuon newydd Cymraeg – mae'r geirio yn llawer cliriach a'r rhai sy'n mynychu'r dosbarthiadau Cymraeg yn llawer mwy awyddus a brwdfrydig gan eu bod bellach yn gallu deall beth a ganant.

- Mae o leiaf dri grŵp dawnsio gwerin ffyniannus ynghlwm wrth y dosbarthiadau yn Nhrefelin, yn Esquel, ac yn Commodoro Rivadavia.

- Ymledodd y galw am ddosbarthiadau Cymraeg. Sefydlwyd un yn Commodoro Rivadavia yn 1998 ac mae'n dal yn llewyrchus er nad yw'n dod o dan nawdd y prosiect hwn. Â Juan Carlos Davies – un o diwtoriaid brodorol Gaiman yno ar un penwythnos bob mis gan gynnal cyfres o ddosbarthiadau. Bu ef ar y cwrs hyfforddi tiwtoriaid cyntaf a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg Prifysgol Caerdydd dan nawdd y prosiect hwn. Dechreuwyd cynnal dosbarth Cymraeg arall yn Buenos Aires. Llwyddiant y prosiect sy'n sicr yn cyfrif am fodolaeth y dosbarthiadau hyn.

- Bellach caiff y Gymraeg le amlycach ar y cyfryngau. Am flynyddoedd lawer Rhaglen Tegai (Miss Tegai Roberts yw curadur yr Amgueddfa Gymraeg yn Gaiman) oedd yr unig raglen a roddai unrhyw sylw i'r Gymraeg. Bellach ceir rhaglen ar Radio Gaiman sy'n trafod hanes Cymru, ei daearyddiaeth, ei phobl a'i diwylliant. Sbaeneg yw cyfrwng y rhaglen ond ei phrif nod yw cyflwyno'r 'hen wlad' i rai na wyddant ddim amdani fel y gallant ddeall a gwerthfawrogi'r diwylliant unigryw hwnnw a drawsblannwyd i grastir paith Patagonia. Mae'n amlwg mai'r bwriad yw creu diddordeb a fydd yn y pen draw yn taflu goleuni ar glytwaith yr etifeddiaeth ddiwylliannol sy'n bodoli yn Nhalaith Chubut heddiw.

  Yn Gaiman hefyd mae Juan Carlos Davies yn gyfrifol am raglen deledu wythnosol sy'n trafod digwyddiadau ac uchafbwyntiau calendr bywyd Cymraeg y Dyffryn Uchaf. Mae'n gyfrwng pwysig i hysbysu pobl ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd. Mae'n ffordd effeithiol o greu diddordeb a dangos bod modd cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bum mlynedd yn ôl ni fyddai hyn wedi digwydd.

  Yn yr Andes mae'r athrawesau o Gymru – Rhian Jones a Nia Lewis yn difyrru'r gymuned ar Radio Trevelin ddwywaith yr wythnos gyda'u rhaglenni cerddorol Cymraeg. Tra bo rhaglen Nia wedi ei hanelu'n benodol at yr ifanc, rhaglen o ganu emynau sy'n apelio at y to hŷn a gyflwynir gan Rhian. Defnyddiant y rhaglenni i hysbysebu'r dosbarthiadau Cymraeg a'r bwriad yn y dyfodol yw cynnwys pytiau o sgyrsiau gyda dysgwyr. Ni fu dim tebyg yn yr Andes erioed a dwy wraig ifanc sy'n rhoi'r arweiniad.

- Mae prosiect ymchwil i lenyddiath Gymraeg ar y gweill yn Universidad Nacional de Patagonia 'San Juan Bosco'. Gabriel Restucha un o'r tiwtoriaid lleol Cymraeg a fydd un o'r ymchwilwyr.

- Mae Nansi Jones, un a fu ar gwrs hyfforddi dan nawdd y prosiect yn dysgu llenyddiaeth yn y Brifysgol ac yn awr caiff ryddid i drafod llên y Cymry.

- Mae'r *Dravod* yn ymddangos yn amlach. Oddi ar ymweliad Glyn Evans â Phatagonia yn 1999 i gynnal dosbarthiadau ysgrifennu Cymraeg mae'r *Dravod* ar ei newydd wedd. Nid problem prinder defnyddiau sy'n poeni'r golygydd bellach ond gormod! Anogaeth y dosbarth ysgrifennu a brwdfrydedd yr athrawon o Gymru sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Sefydlwyd papur arbennig i ddysgwyr yn y Dyffryn – a thrwy garedigrwydd golygydd y *Dravod* ymddangosodd *'Adlais'* yn rhifynnau diweddaraf swmpus y chwarterolyn hwnnw. Erbyn Nadolig 2000 bwriedir cyhoeddi copi arbennig o *'Adlais'* a'r cyfan yn waith disgyblion y dosbarthiadau Cymraeg.

  Yn yr Andes sefydlwyd papur bro yr Ysgol Gymraeg dros ddwy flynedd yn ôl, a dwy o'r rhai a fynychodd gwrs dwys yn Llanbedr Pont Steffan sy'n gyfrifol am gasglu defnyddiau, eu gosod, a'u hargraffu ar ffurf papur. Mae *Llais yr Andes* yn ddolen gyswllt hynod o werthfawr mewn cymuned wasgaredig fel un yr Andes.

- Yn Esquel mae'r gymdeithas Gymraeg wrthi'n adeiladu neuadd helaeth ynghyd â chegin bwrpasol a fflat, yn bennaf ar gyfer yr Ysgol Gymraeg. Gobeithir cwblhau'r gwaith cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf ym Mawrth 2001.

- Ni fyddai'r rhychwant o weithgareddau a chymdeithasu yn y Gymraeg sy'n bodoli heddiw ar gael oni bai am arweiniad, brwdfrydedd, syniadau, ysgogiadau, a llafur diflino athrawon y prosiect.

- Un o effeithiau pwysicaf y prosiect ydyw ei fod wedi newid delwedd y Gymraeg ac wedi creu diddordeb drwy drwch cymdeithas yn ddiwahân. Nid pobl o dras Gymreig yn unig sy'n mynychu'r dosbarthiadau nac yn canu yn y corau nac yn mwynhau nosweithiau llawen a thwmpathau dawns. Yn gynyddol ystyrir y Gymraeg fel un o nodweddion diffiniol Talaith Chubut. Mae sawl ysgol gynradd â diddordeb mewn sefydlu dosbarthiadau Cymraeg allgyrsiol. Byddai dosbarth meithrin Ysgol Gynradd Genedlaethol Gaiman yn hoffi cael caneuon Cymraeg fel rhan o'u maes llafur. Mae'r diddordeb yno ac yn tyfu, ond gellid gwasgaru adnoddau prin drwy grafu'r wyneb yn unig. Nid oes pwynt mewn dechrau darpariaeth oni bai ei bod yn esgor ar siaradwyr rhugl! Roedd hyn yn un broblem a frigodd i'r wyneb yn Gaiman eleni. Mae'r dosbarthiadau a ddechreuwyd yn Ysgol Rhif 100 Gaiman , yn Ysgol y Felin Trefelin, ac yn Ysgol Aldea Cwm Hyfryd yn parhau ond ni pharhaodd y dosbarthiadau yn Ysgol Bryngwyn nac ychwaith yn yr ysgol eilradd yn Esquel.

- Mae cymunedau'r Andes yn ymfalchïo yn y ffaith mai dysgwraig o'r Ysgol Gymraeg a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Llanelli eleni. Dechreuodd Sandra de Pol ddysgu'r Gymraeg yn 1997. Clywsai am ddechrau'r prosiect ac er nad oedd o dras Gymreig rhoes ei bryd ar

ddysgu'r iaith. Oherwydd anogaeth a chefnogaeth yr athrawes Gymraeg yn Esquel – Mrs Hazel Evans., gwnaeth gamau breision yn ystod ei blwyddyn gyntaf a dewiswyd hi i fynychu'r cwrs dwys Cymraeg yn Llanbedr ac yna'r cwrs i diwtoriaid yn ddiweddarach. Mae'r prosiect yn bendifaddau wedi gadael ei ôl ar y gymdeithas ac wedi dangos bod adfer iaith yn bosibl gydag ewyllys, dyfalbarhâd a gweithgarwch.

## Sialens pedwaredd flwyddyn y prosiect

Anfonwyd pum athro o Gymru eleni a dau ohonynt â swyddogaethau penodol. Cyfrifoldeb Menna George oedd hybu gwaith plant a sefydlu addysg gynradd Gymraeg yn y Dyffryn i'r plant ôl-feithrin. Bwriedid i Rhian Jones ganolbwyntio ar hyfforddi darpar diwtoriaid fel y bydd cyflenwad digonol o diwtoriaid lleol ar gael ar derfyn y prosiect. Gan nad oedd llawer o diwtoriaid lleol yn yr Andes a chan mai yno yr oedd y galw pennaf, lleolwyd hi yn Nhrefelin. Bwriedid y byddai'r athrawes plant a'r hyfforddwraig tiwtoriaid yn weddol symudol ac yn treulio cyfnodau yn y Dyffryn ac yn yr Andes. Gobeithid y byddai dwy athrawes ychwanegol am flwyddyn yn gallu cadarnhau'r gwaith ymhlith y plant drwy ddarparu dilyniant effeithiol ar ôl y cyfnod meithrin. Dim ond yn ardaloedd Trelew a'r Gaiman y gellid gwneud hyn gan nad oedd gwaith plant yn yr Andes wedi datblygu cystal. Ystyrid y gallai Menna George ymweld â'r Andes o bryd i'w gilydd i gynghori ac i hyfforddi athrawon a gweinyddesau meithrin yno.

Hyd yma mae'r gwaith hyfforddi tiwtoriaid wedi ei ganoli'n bennaf yn yr Andes gan mai yno yr ymgartrefa Rhian Jones. Yn wir, yno y mae'r angen mwyaf gan na fu dosbarthiadau Cymraeg yn yr Andes hyd ddechrau'r prosiect hwn yn 1997. Mae Rhian Jones wedi cyflawni'r targedau a roddwyd iddi ond rhan fechan o'i gwaith wythnosol yw hyfforddi athrawon. Ar hyn o bryd mae pum person yn cyd-ddysgu rhai dosbarthiadau â hi. Cânt gyfle i arsylwi a rhydd y fath drefniant gyfle iddi hithau hyfforddi mewn modd ymarferol. Bu ar ymweliad â'r Dyffryn am wythnos yn cynnal cwrs hyfforddi i diwtoriaid yno.

Ar fy ymweliad gwelais fod yr athrawon arbenigol yn gwneud yr hyn a ddisgwylid ond ni ellir cyflawni'n gyfangwbl yr hyn a obeithid. **O weld y gwaith a gyflawnir ymhlith y plant ar hyn o bryd a'r cynnydd a welwyd yn yr Andes drwy gael dwy yn gweithio yno, mae'n anodd gweld sut y gellir cadw'r un momentwm y flwyddyn nesaf gyda dim ond tri athro yn hytrach na phump. Yn sicr nid yw blwyddyn o waith ar sefydlu addysg ôl-feithrin yn mynd i warantu y bydd hynny'n parhau i'r dyfodol**. Ni thargedwyd unrhyw un lleol eto a allai ymgrymryd â dysgu plant ôl-feithrin a datblygu cwricwlwm a fyddai'n effeithiol ac yn llwyddiannus. Teimlaf hefyd y byddai'n bur anodd parhau â chynnal y gwaith yn yr Andes â dim ond un athrawes yn gweithio yno. Mae angen rhagor o wersi gloywi iaith ar y darpar diwtoriaid ac y mae lle i ddatblygu'r gwaith meithrin a ddechreuwyd yn Esquel a Threfelin gan y ddwy athrawes bresennol.

Oni fydd yn bosibl cynnal y ddarpariaeth bresennol o ran nifer yr athrawon am flwyddyn arall, teimlaf yn gryf y bydd yn rhaid ail-ystyried targedau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

O Fawrth hyd Orffennaf 2001 awgrymir y dylid annog Menna George i ddiosg rhai o'r dosbarthiadau unwaith yr wythnos sydd ar ei thaflen amser ar hyn o bryd a chanoli ei hymdrechion ar gryfhau'r dosbarth meithrin yn Nhrelew ac ar strwythuro cyrsiau dilyniant ôl-feithrin yno, yn y Gaiman, ac yn Nolafon. Tybed na ellid cynyddu'r dosbarthiadau hyn o ddwywaith i dair gwaith yr wythnos? Byddai dysgu dwys yn sicrhau fod y plant sydd eisoes yn brawddegu'n eithaf da yn y Gymraeg yn croesi'r bont ac yn dod yn gwbl rugl. Dylid annog tiwtoriaid lleol i ysgwyddo cyfrifoldeb am y cyrsiau unwaith yr wythnos i blant.

Eleni fel cynt darparwyd llety i'r athrawon gan y cymunedau lleol. Roedd safon y dysgu yn y tri dalgylch yn ddigon cymeradwy ac roedd yn gwbl amlwg bod y cymunedau lleol yn werthfawrogol iawn o waith yr athrawon ac yn dra pharod i ymateb i'w hanghenion. Adnewyddwyd Tŷ Camwy rhwng ymadawiad Angharad Rogers a dyfodiad Nans Rowlands a Menna George. Roedd y gwelliannau yn rhai derbyniol iawn. Eleni eto rhoes Cymdeithas Gymraeg y Bwthyn rodd i'r athrawon – peiriant golchi. Yn yr Andes trefnwyd tŷ yn Esquel lle cynhelir y dosbarthiadau a lle gall yr athrawesau aros pan fo angen iddynt fod yn Esquel yn hwyr yn y nos. Paratowyd tŷ iddynt hefyd yn Nhrefelin – Tŷ Capel. Roedd angen ei baentio, ei atgyweirio, ei dwymo a'i ddodrefnu. Gwnaethpwyd hyn yn chwaethus iawn a rhaid canmol yr athrawesau am drefnu i gael y dysgwyr yno i weithio tra'n ymarfer eu Cymraeg ar yr un pryd. Mae cael bod yn rhan o'r prosiect yn brofiad amhrisiadwy i'r athrawon o Gymru. Cyfrannant yn helaeth i'r broses o adfer iaith ond cyfoethogir eu bywydau hwythau drwy'r profiad o weithio dramor. Yn y tri dalgylch roedd cydweithrediad hapus rhwng yr athrawon a'r cymdeithasau lleol.

Yn Hydref 2000 roedd 742 yn mynychu gwersi Cymraeg ym Mhatagonia, cynnydd ar y 663 a gofnodwyd yn Awst 1999. Roedd hyn yn gynnydd o 12% ar niferoedd y flwyddyn ddiwethaf a hynny ar waetha'r ffaith bod yr athrawon ddeufis yn hwyr yn cyrraedd. Roedd yr athrawon a'r arweinwyr lleol o'r farn bod pethau wedi bod 'braidd yn araf' eleni am nad oedd yr athrawon yno ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Mawrth. Dichon nad oedd hynny'n ddrwg i gyd oherwydd gorfodwyd tiwtoriaid lleol i geisio cynnal y ddarpariaeth yn yr Andes ac yn nalgylch Gaiman. Ni chafwyd y fath arweiniad yn Nhrelew a bu'r datblygiadau braidd yn araf yno. Ar ddechrau mis Hydref nid oedd yr ysgol feithrin wedi ail-ddechrau, ond bellach mae'r stori'n wahanol.

*Tabl 1 : Niferoedd y myfyrwyr cyn ac yn ystod cyfnod y prosiect*

| | Gaiman/Trelew | Yr Andes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 1996 | 293 | 20 | 313 |
| 1997 | 348 | 225 | 573 |
| 1998 | 428 | 212 | 640 |
| 1999 | 443 | 220 | 663 |
| 2000 | 501 | 241 | 742 |

Yn ystod pedair blynedd y prosiect gwelwyd cynnydd ar raddfa 137% yn niferoedd y rhai sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg.

## Effeithiolrwydd y Dysgu

Gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y dosbarthiadau eleni o 71 i 82 a chododd yr oriau dysgu o 107 yr wythnos i 147 awr yr wythnos.

Y fframwaith ddysgu dwys (dwywaith yr wythnos) a ddefnyddir bellach ym mhobman o Safon 2 i fyny a dyma'r norm gyda dosbarthiadau Safon 1 hefyd heblaw am y dosbarthiadau i blant a gynhelir mewn ysgolion lleol tu allan i oriau ysgol. Ymatebwyd eleni i'r anogaeth i roi blaenoriaeth i ddysgu dwys a hynny yn ogystal â dechrau deg dosbarth newydd sy'n cyfrif am y 40 awr ychwanegol o wersi Cymraeg bob wythnos.

Yn y tri dalgylch cynhelir dosbarthiadau ar 8 safon ieithyddol :

| | |
|---|---|
| Safon 1 | dechreuwyr |
| Safon 2 | myfyrwyr ail flwyddyn |
| Safon 3 / 4 | rhai sy'n gallu sgwrsio'n syml |
| Safon 5 / 6 | siaradwyr gweddol rugl |
| Safon 7 | cwrs gloywi : ymestyn cyweiriau llafar, darllen ac ysgrifennu |
| Safon 8 | gloywi iaith a methodoleg dysgu |

Mae amrediad y cyrsiau a gynigir eleni ym mhob canolfan yn ddigonol oherwydd sicrheir dilyniant o'r naill safon i'r nesaf. Roedd 62% o'r holl ddosbarthiadau yn rhai i ôl-ddechreuwyr sy'n dangos bod canran dda o'r myfyrwyr yn parhau i ddysgu'r Gymraeg ar ôl y flwyddyn gyntaf. Dangosir union natur y ddarpariaeth yn y tri dalgylch yn Nhabl II isod. Dangosir gyfanrifau 1999 mewn cromfachau.

*Tabl II : Y Dosbarthiadau yn ôl eu safon*

| | Safon 1 | Safon 2 | Safon 3/4 | Safon 5/6 | Safon 7 | Safon 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gaiman | 16 | 10 | 8 | 3 | | |
| Trelew | 5 | 2 | 5 | 2 | 2 | |
| Yr Andes | 10 | 7 | 4 | 4 | 2 | 1 |
| Cyfanrif | 31 (30) | 19 (15) | 17 (15) | 9 (5) | 4 (6) | 1 |

Yn 1999 roedd 60% o ddosbarthiadau'r Andes yn rhai Safon 1 ond eleni dim ond 35% oedd ar Safon 1 a'r 65% eraill yn ddosbarthiadau ôl-ddechreuwyr. Eleni roedd yno 10 dosbarth Safon 1 tra cynhaliwyd 12 llynedd. Gwelwyd y cynnydd pennaf yn y safonau ôl-ddechreuol. Fel y nodwyd ynghynt cynhaliwyd dosbarthiadau am ddeufis ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gan diwtoriaid lleol. Sicrhaodd hynny fod y rhai a ddechreuodd yn 1999 yn gallu parhau yn 2000. Ni chafwyd darpariaeth gyffelyb yn

Nhrelew a gwelwyd cwymp sylweddol yn Safon 2 o chwe dosbarth yn 1999 i 2 ddosbarth yn 2000.

Prif ddiffyg y ddarpariaeth yw mai athrawon y prosiect yw'r unig rai sy'n dysgu cyrsiau o Safon 1 hyd at y safonau uwch. Mae gwaith y tiwtoriaid lleol wedi ei gyfyngu i Safonau 1 a 2. Yr unig eithriadau yw Juan Carlos Davies a Mary Zampini yn Gaiman. Mae gan y naill un dosbarth oedolion Safon 3 a'r llall un dosbarth plant Safon 3.

Heb athrawon y prosiect ni fyddai'n bosibl cynnal yr amrediad cyrsiau nac ychwaith y nifer o gyrsiau a gynigir ar hyn o bryd.

*Tabl 3 : Y dosbarthiadau a ddysgir gan y tiwtoriaid yn ôl safon*

| | Safon 1 | Safon 2 | Safon 3/4 | Safon 5/6 | Safon 7 | Safon 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nans Rowlands (Gaiman) | 2 | | 5 | 3 | 1 | |
| Menna George (Gaiman) | 9 | 4 | 1 | | | |
| Nene Williams (Gaiman) | 1 | | | | | |
| Gabriel Restucha | 2 | 3 | | | | |
| Juan Carlos Davies (Gaiman) | | 2 | 1 | | | |
| Mary Zampini (Gaiman) | 1 | 1 | 1 | | | |
| Nivea Owen (Dolafon) | 1 | | | | | |
| Rhys Llewelyn (Trelew) | 4 | 2 | 5 | 2 | 1 | |
| Delia Evans (Porth Madryn) | 1 | | | | | |
| Nia Lewis (Andes) | 5 | 1 | 2 | 1 | | |
| Rhian Jones (Andes) | | 1 | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Rhian a Sandra de Pol | 1 | | | | | |
| Rhian a Joyce Powell | 1 | 1 | | | | |
| Rhian ac Ariel Hughes | | | | | | |
| Rhian a Gladys Jones | 1 | | | 1 | | |
| Silvia Baldor | | 2 | | | | |
| Sandra de Pol | 3 | 2 | | | | |

Yn 1999 roedd y tiwtoriaid lleol yn gyfrifol am ddysgu 37 o ddosbarthiadau. Eleni gostyngodd hynny i 25 dosbarth. Parhaodd y sefyllfa yn ddigon iach yn yr Andes. Dysgwyd 11 dosbarth gan 5 thiwtor lleol eleni o'u cyfarbynu ag 11 dosbarth gan dri thiwtor lleol yn 1999. Gwelwyd gostyngiad o bedwar dosbarth gan diwtoriaid lleol i un yn Nhrelew ac o 22 dosbarth i 13 dosbarth yn Gaiman. A yw'r sefyllfa felly'n gwaethygu yn Gaiman? Y prif reswm am y gostyngiad ydyw na chyflogir Gabriel Restucha bellach gan yr Awdurdod Addysg i ddysgu chwe dosbarth ym Mryngwyn. Ar ôl i mi ymweld â'r Cyfarwyddwr Addysg yn 1997 ac wedyn yn 1998 cytunodd i sefydlu "prosiect arbrofol"ym Mryngwyn. Parhaodd hwnnw am ddwy flynedd a chafodd gefnogaeth ardderchog gan bobl yr ardal a'r plant. Ymddengys fod angen gwneud cais arall i ailsefydlu'r prosiect. **Byddai cysylltiad ffurfiol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth Talaith Chubut yn hynod o fanteisiol oherwydd gallai esgor ar gefnogaeth leol swyddogol i'r dosbarthiadau Cymraeg. Byddai hynny'n dra phwysig ar derfyn cyfnod y prosiect cyfredol.**

Roeddwn wedi gobeithio y cynyddid oriau'r tiwtoriaid lleol eleni a'r flwyddyn nesaf fel y byddai fframwaith y dosbarthiadau Cymraeg yn hunangynhaliol erbyn Mawrth 2003. Gobeithir gallu gwireddu hynny os bydd gwaith y pwyllgorau lleol yn effeithiol ac os llwyddir i sefydlu fframwaith gyllidol. Gallu sicrhau cyllid digonol i dalu cyflogau teilwng i'r tiwtoriaid lleol fydd y datblygiad allweddol nesaf.

Yn ogystal â hynny mae'n gwbl angenrheidiol rhoi hyfforddiant trylwyr i'r rhai a fydd yn ymgymryd â'r gwaith dysgu a bydd yn rhaid darbwyllo'r cymunedau lleol fod tiwtoriaid brodorol yn gallu cyflawni gwaith llawn cystal â'r athrawon o Gymru. Mae'n fater o hybu hunanhyder y tiwtoriaid brodorol eu hunain yn ogystal â chryfhau ffydd y cymunedau lleol yn eu pobl eu hunain. Digwyddodd hyn eisoes yn achos tri thiwtor lleol nodedig yn Gaiman, sef Gabriel Restucha (dysgu pobl ieuainc), Mary Zampini (plant meithrin), a Juan Carlos Davies (oedolion).

Bydd athrawon y prosiect yn targedu chwe darpar-diwtor addawol i ddod ar gwrs hyfforddi yn Hydref 2001 yng Nghymru. Bydd yn rhaid rhoi hyfforddiant ieithyddol trwyadl iddynt cyn iddynt gael eu dewis a bydd yn rhaid mynnu bod tystiolaeth ar gael bod y rhain yn bwriadu cyfrannu gwasanaeth yn ôl i'r gymuned leol drwy'r dosbarthiadau Cymraeg ar ôl dychwelyd i Chubut.

Ymwelwyd â thrawsdoriad cynrychioliadol o ddosbarthiadau yn cwmpasu'r amrywiol safonau ieithyddol a'r haenau oedran ym mhob dalgylch. Y nod oedd gallu arsyllu ar sampl o alwadau wythnosol pob athro. Ar y cyfan roedd ansawdd y dysgu a'r addysgu yn dra boddhaol. Roedd y gwersi'n fywiog, yn ddiddorol, ac yn ddisgybl ganolog a'r berthynas rhwng tiwtor a'i ddisgyblion yn adeiladol a chadarnhaol. Gwelwyd enghreifftiau o waith llafar effeithiol (drulio patrymau) ac roedd y gweithgareddau cyfathrebol a ddefnyddiwyd yn addas i safon y dosbarth. Llwyddwyd i gadw cydbwysedd effeithiol rhwng dysgu gramadeg, gwrando ac ail adrodd a gweithgarwch llafar. Roedd y gwaith yn y dosbarthiadau uwch o safon uchel a golygai waith paratoi gofalus a thrylwyr ar ran yr athrawon.

Un datblygiad diddorol eleni yw bod yr athrawon wedi dechrau cylchoedd siarad anffurfiol yn Gaiman a Threlew. Croesewir hyn gan fod cyfarfodydd cymdeithasol anffurfiol eu natur yn gyfrwng ardderchog i bontio'r agendor rhwng y dosbarth a'r gymdeithas. Maent hefyd yn dra effeithiol i ddangos y gall y Gymraeg fod yn

gyfrwng ymlacio, rhialtwch a hwyl. Yn y Dyffryn hefyd trefnwyd gwibdeithiau i ddysgwyr a siaradwyr rhugl a cheisiwyd sefydlu un rheol – siarad Cymraeg yn unig. Dyma'r cam agosaf at sefydlu fframwaith debyg i Gymdeithas y Dysgwyr.

Roeddwn yn ddigon hapus â'r dysgu a'r addysgu. Mae'r athrawon yn gwneud gwaith ardderchog ac yn cael boddhad mawr eu hunain o weld llwyddiant yn dilyn eu hymdrechion. Maent yn dra ymwybodol bod angen sicrhau ansawdd uchel i'r dysgu. Bydd athrawon y Dyffryn yn cwrdd â'i gilydd yn rheolaidd ar foreau Gwener i drafod cynlluniau dysgu, gwersi, gweithgareddau, a rhannu syniadau ac adnoddau dysgu. Yn naturiol ceir yr un math o ysbryd gwaith tîm yn yr Andes hefyd a'r cydweithredu hwn yw un o gryfderau'r ddarpariaeth eleni. Ymwelodd athrawon y Dyffryn â'r Andes i arsylwi ar y gwaith yno a bu Rhian Jones a Nia Lewis ar ymweliadau â'r Dyffryn. Trefnwyd cyfarfodydd i drafod cynnydd a datblygiadau gan drefnydd lleol y prosiect, Sra Luned Roberts de Gonzalez. Bu hi'n ddylanwad cadarnhaol a doeth ar yr athrawon a gwnaeth lawer i hybu a hwyluso eu gwaith.

## Gwerthuso'r Addysgu

Ym mhob dosbarth rhannwyd holiadur gwerthuso a gynhwysai saith cwestiwn a chyfle i'r myfyrwyr ddewis o blith nifer o atebion posibl ym mhob achos. Holwyd ynglŷn ag amser gwersi, safon y dosbarth, safon yr addysgu, defnyddiau dysgu, amlder gwersi, parhâd, ac unrhyw welliannau . (Gweler Atodiad I)

Ym mhob canolfan canmolir ansawdd y dysgu a'r defnyddiau dysgu. Maent naill ai yn 'ardderchog' neu'n 'dda' ym mhob achos. Roedd pawb hefyd yn hapus ag amseriad a lleoliad y gwersi a chredent fod safon eu dosbarth yn addas. Roedd bron iawn pawb yn awyddus i barhau â'r gwersi ym Mawrth 2001. Roedd pawb yn fodlon ar amlder y gwersi er i nifer helaeth ym mhob dalgylch fynegi yr hoffent gael gwersi hwy nag awr a hynny fwy na dwywaith yr wythnos. Roedd un yn awyddus i gael gwersi bob dydd a rhaglen o ysgolion undydd rheolaidd ar y Sadyrnau.

Yn yr adran a ymdriniai â gwelliannau roedd disgyblion yr Andes yn daer i gael mwy o gerddoriaeth yn y gwersi. Yn y tri dalgylch mynegwyd y byddai rhagor o weithgareddau ar gyfer ieuenctid yn dra buddiol. Roedd llawer o'r hyn a ymddangosodd yn yr holiaduron yn adleisio'r hyn a glywais droeon mewn sgyrsiau ag unigolion.

Roeddynt am weld mwy o athrawon o Gymru yn ymweld â'u cymunedau. Mae'r cysylltiad â Chymru drwy'r athrawon yn hynod o bwysig a'i effeithiau yn bellgyrhaeddol o gofio mai dyma'r cysylltiad cyntaf i lawer â phobl o'r 'hen wlad'. Roedd galw amlwg hefyd am lyfrau, posteri, a chardiau Cymraeg. Ymddengys fod galw am dwf pellach. Ni chredaf y bydd hynny'n bosibl oni ellir yn gyntaf sicrhau gweithwyr priodol a fframwaith weinyddol a chyllidol a fyddai'n gallu cynnal y '*status quo*' presennol ar derfyn dyddiau'r prosiect.

Myfyrwyr – Niferoedd

Fel y dengys Tabl 1 roedd 742 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru yn y dosbarthiadau Cymraeg ym mis Hydref 2000. Gwelwyd cynnydd o 12% ar gyfanrif 1999 o 663 myfyriwr. Cofrestrwyd 372 yn Gaiman (322 yn 1999); 129 (121) yn Nhrelew, a 241 (220) yn yr Andes. Cafwyd cynnydd o 50 (15%) ymrestriad yn Gaiman, cynnydd o 8 (6.6%) ymrestriad yn Nhrelew, a chynnydd o 21 (9.5%) yn yr Andes.

Drwy ddadansoddi'r ymrestriadau yn nhermau haenau oedran ceir darlun cliriach o'r patrymau a'r tueddiadau o fewn y cymunedau.

*Tabl 4 : Ymrestriadau yn ôl haenau oedran*

| | 1997 | 1998 | 1999 | 2000 |
|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | 279 | 239 | 210 | 234 |
| **Ieuenctid** | 131 | 109 | 145 | 223 |
| **Ysgol Gynradd** | 120 | 205 | 239 | 211 |
| **Ôl Feithrin** | 12 | 36 | 39 | 29 |
| **Meithrin** | 31 | 51 | 30 | 45 |

Yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect gwelwyd cynnydd ym mhob haen oedran, ond cofnodwyd cynnydd aruthrol ymysg oedolion a phant ysgolion cynradd :

- oedolion o 124 yn 1996 i 279 yn 1997
- plant o 31 yn 1996 i 131 yn 1997

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf gwelwyd cynnydd ym mhob haen heblaw am yr oedolion. Eleni dengys yr ystadegau gynnydd / lleihad ar rifau 1999 o fewn pob haen oedran fel a ganlyn :

| | |
|---|---|
| Oedolion | + 11% |
| Ieuenctid | + 54% |
| Plant Cynradd | - 12% |
| Ôl Feithrin | - 26% |
| Meithrin | + 50% |

Yn achos yr oedolion mae'r cyfanrif yn ddigon tebyg i'r hyn a gafwyd yn 1998. Mae'n dra thebyg mai dyma'r brig ac yn y dyfodol gellir disgwyl rhwng 200 a 250 o oedolion. Yr unig ffordd i weld cynnydd yma fyddai drwy sefydlu dosbarthiadau ar hanes Cymru a diwylliant, a chyrsiau ysgrifennu wedi eu targedu'n benodol ar gyfer rhai sydd eisoes yn gwbl rhugl yn y Gymraeg.

Gwelwyd lleihad o 12% yn niferoedd plant oedran ysgol gynradd. Mae'r esboniad am hyn yn eithaf amlwg ac mae'n ddatblygiad y gellid yn wir ei ddisgwyl. Roedd canran uchel o'r dosbarthiadau ar gyfer yr oedran hwn yn rhai a oedd yn gydiol wrth ysgolion cynradd penodol ac yn rhai a gynhelid yn allgyrsiol unwaith yr wythnos. Roedd y plant yn elwa o'r profiad o ddysgu ail iaith, yn mwynhau'r gweithgareddau a'r gwersi canu ond nid oedd y fframwaith ddysgu yn ddigon dwys i ddysgu iaith yn effeithiol. Rhoes flas i'r plant ar ddysgu iaith arall a bu'n gyfrwng tra effeithiol i godi

delwedd y Gymraeg a'i diwylliant ymhlith rhai na wyddai fawr ddim cyn hynny. Dyma'n wir ydoedd y cyrsiau a gynhelid yn Ysgol Bryngwyn fel 'prosiect arbennig' dan nawdd Gweinidogaeth Addysg Talaith Chubut. Bu mewn grym am ddwy flynedd ond bellach peidiodd y nawdd a hynny ar yr union adeg pan ddylai'r mewnbwn dysgu ddechrau dwyn ffrwyth. Pe byddai'r prosiect hwn wedi parhau yna byddwn wedi disgwyl cynnydd o 42% ar ystadegau y llynedd.

Roedd ystadegau'r haen ôl-feithrin braidd yn siomedig ond diffyg dilyniant yn Nhrelew sy'n cyfrif am hyn. Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Mawrth nid oedd neb i ysgwyddo cyfrifoldebau gweinyddol yn Nhrelew ac erbyn i'r athro gyrraedd roedd dosbarth meithrin y flwyddyn flaenorol wedi gwasgaru a'r plant wedi ymuno â chyrsiau a chlybiau gweithgareddau eraill. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer pobl ieuainc sy'n mynychu'r dosbarthiadau a hefyd yn niferoedd y dosbarthiadau meithrin.

Bydd yn rhaid rhoi blaenoriaeth i dargedu'r garfan hon yn Nhrelew erbyn Mawrth 2001. Eleni roedd 69% o'r holl ymrestriadau yn blant a phobl ieuanc. Ceir patrymau ychydig yn wahanol yn y tri dalgylch. Yn Gaiman, roedd 79% o'r ymrestriadau yn blant a phobl ieuanc ac yn yr Andes perthynai 73% o'r myfyrwyr i'r haenau oedran iau tra yn Nhrelew 32% o'r rhai a ymrestrodd a oedd yn perthyn i'r haenau oedran ifanc.

***Tabl 5 : Ymrestriadau yn ôl haenau oedran***

| | Gaiman | Trelew | Andes |
|---|---|---|---|
| Oedolion | 80 | 88 | 66 |
| Ieuenctid | 137 | 24 | 62 |
| Ysgol Gynradd | 116 | 5 | 90 |
| Ôl-feithrin / Meithrin | 39 | 12 | 23 |

Mae'r sefyllfa'n iachach yn Gaiman a'r Andes yn nhermau strwythur haenau oedran y rhai sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg. Yn nalgylch Trelew ni welwyd cynnydd arbennig o ran niferoedd eleni er bod niferoedd pobl ieuanc wedi codi o 6 yn 1999 i 24 eleni. Mae Trelew yn ardal ddinesig tra bo Gaiman, Esquel a Threfelin yn bentrefol ac yn wledig eu naws. Y gwir yw bod sylfaen Cymreig cadarnach yn yr ardaloedd hyn yn arbennig felly yn nalgylch Gaiman. Yn nalgylch Trelew mae angen athro/athrawes sydd hefyd yn dda am sefydlu cysylltiadau a allai feithrin rhwydweithiau cymdeithasol a fyddai'n rhoi delwedd uwch i'r Gymraeg. Yn aml iawn mewn sefyllfa ddinesig mae'n rhwydd cuddio yn y dorf. O ran niferoedd mae'n sicr bod mwy o siaradwyr y Gymraeg yn Nhrelew nag yn unman arall ond isel iawn yw dwysedd yr elfen Gymreig yn y boblogaeth. Trelew yw'r dref bwysicaf yn Nyffryn Camwy. Os yw'r Gymraeg i ffynnu bydd yn rhaid iddi fod yn rhan fwy blaenllaw o wead cymdeithasol Trelew. Mae'r ffaith bod 24 o bobl ieuanc yn mynychu'r dosbarthiadau Cymraeg eleni yn galonogol ond mae gwir angen cynyddu hynny ac mae angen rhoi llawer mwy o bwyslais ar waith plant. Dyma'r man gwan yn Nhrelew ac er brwdfrydedd a llafur caled yr athrawon nid yw'r diffyg wedi ei unioni. Y gobaith yw y bydd sefydlu pwyllgor lleol yn trosglwyddo mwy o gyfrifoldebau ar ysgwyddau'r bobl leol.

Isod ceir dadansoddiad o'r ymrestriadau yn ôl safonau ieithyddol. Cynhwysir ystadegau 1999 mewn cromfachau.

*Tabl 6 : Ymrestriadau yn ôl safon ieithyddol*

| Dechreuwyr<br>Safon 1 | Ôl-ddechreuwyr<br>Safonau 2/3/4 | Siaradwyr rhugl<br>Safonau 5/6/7 |
|---|---|---|
| 435 (416) | 216 (234) | 91 (78) |

Ni welwyd newidiadau syfrdanol. Nodwyd cynnydd ar raddfa 5% ymhlith Safon 1, cwymp o 8% yn rhengoedd yr ôl-ddechreuwyr, ond cynnydd eto o 15% yn rhengoedd y siaradwyr rhugl.

Dengys yr uchod bod lefel y galw am gyrsiau i ddechreuwyr yn parhau. Ar gyfartaledd gellir honni bod oddeutu 50% o ddechreuwyr un flwyddyn yn parhau â chwrs uwch y flwyddyn ddilynol. Roedd y canran yn is eleni oherwydd y cyfnod o anhrefn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Ni chynhaliwyd dosbarthiadau ôl-ddechreuol yn Nhrelew ac er i diwtoriaid lleol geisio parhau â'r ddarpariaeth yn Gaiman ac yn yr Andes roedd cryn ragfarn yn y gymdeithas yn erbyn tiwtoriaid lleol. Mynegodd sawl un yn ddigon croyw mai'r athrawon o Gymru oedd y rhai gorau. Bydd yn rhaid dileu y fath ragfarn yn enwedig er mwyn sicrhau parhad ar ôl dyddiau'r prosiect.

Roedd cynnydd yn y safonau uwch (5/6/7) yn dra chalonogol gan ei fod yn brawf clir fod rhai'n treiglo drwy'r gyfundrefn gan ddod yn bersonau dwyieithog. Dyna yn sicr oedd nod y prosiect. Wrth gwrs ni welir pawb a ymrestra ar gwrs Safon 1 yn cyrraedd Safon 6 a 7. Mae gweld rhai yn cyrraedd yn brawf o lwyddiant y dysgu. Y prawf pennaf yw gweld rhai o'r myfyrwyr nid yn unig yn gallu trafod pethau pob dydd yn y Gymraeg ond bellach â digon o hyder i gyfathrebu yn y Gymraeg yn gyhoeddus ac i arwain o'r llwyfan mewn nosweithiau llawen, cyngherddau ac eisteddfodau. Mae proses cymdeithasoli'r Gymraeg llawn cyn bwysiced â dysgu o safon uchel. Dyma ddod yn ôl eto at ddeuoliaeth swyddogaeth – athro effeithiol / swyddog datblygu iaith.

## <u>Cynnal a Datblygu'r Rhaglen</u>

Y cam cyntaf ym mhroses adfer iaith yw sicrhau addysg yn yr iaith honno. Mae'n rhaid sefydlu cyfundrefn sy'n debygol o gyflawni'r nodau a sefydlir. Erbyn hyn mae fframwaith pur effeithiol ar gael yn y Wladfa. Cynhelir dosbarthiadau addas ar gyfer y gwahanol haenau oedran ac eleni aethpwyd ati i rymuso fframwaith addysgol ôl-feithrin. Mae cryn dipyn o waith datblygu, arbrofi, a chymhwyso ar y gwaith hwnnw ac y mae angen hyfforddi rhai a fydd yn gymwys i ddysgu plant oedran cynradd yn effeithiol.

Ystyriaf fod y ddarpariaeth o ran posibilrwydd dilyniant o un safon i'r nesaf yn gweithio'n dda, ond hyd yma mae dysgu safonau 5/6/7 wedi bod yn gyfangwbl ar ysgwyddau athrawon y prosiect. Mae angen hyfforddiant pellach ar y bobl iawn ac yn

ogystal y mae angen hybu eu hunan hyder. Rwyf yn gwbl argyhoeddiedig mai un dull o weithredu fyddai anfon arbenigwraig o Gymru i gynnal cyrsiau hyfforddi a hynny ar ddechrau'r flwyddyn academaidd – mis Mawrth 2001. Gallai'r arbenigwraig hefyd drafod fframweithiau asesu a dyfarnu credydau a allai gael ei mabwysiadu yn lleol yn Chubut a gellid trafod arholiadau C.B.A.C. *Defnyddio'r Gymraeg* a *Defnyddio'r Gymraeg Uwch.* Eleni anfonwyd pum athro yn hytrach na'r tri arferol. **Y bwriad yw anfon tri yng Ngorffennaf 2001. Dylid trafod y pwnc hwn ymhellach ac os yw'r cyllid yn caniatáu dylid ystyried anfon pum athro eto y flwyddyn nesaf.**

## Hyfforddi Tiwtoriaid

Cynhaliwyd cyrsiau ffurfiol yn Esquel eleni a threfnwyd cwrs dros bythefnos yn y Dyffryn hefyd. Gofynnwyd i athrawon y prosiect ystyried tiwtoriaid posibl a threfnu cyrsiau gloywi iaith iddynt. Y gobaith wedyn yw y bydd safon iaith y rhai a ddaw i'r Cwrs Hyfforddi yng Nghaerdydd yn Nhachwedd 2001 o safon uchel fel y byddant yn gallu cyflawni llawer mwy yn ystod eu harhosiad yma.

## Cwrs Dwys Cymraeg

Cynhaliwyd y cwrs yn Llanbedr Pont Steffan, 10 Gorffennaf – 1 Medi 2000. Mynychodd y canlynol y cwrs eleni dan nawdd y prosiect :

Diana Marisa Ansaldo
Patricia Cilio de Freeman
Jorge Marcelo Gavirati
Anna Pinciroli
Omar Roberts
Ethel Rebeca White

Yr unigolion uchod neu eu cymunedau lleol a oedd yn gyfrifol am gostau teithio. Talwyd eu ffioedd a rhoddwyd cynhaliaeth iddynt gan y prosiect. Mynychodd dwy arall am ran o'r cwrs ar eu cost eu hunain, sef Liliana Freeman a Sandra de Pol. Roedd y naill o Commodoro Rivadavia a'r llall o'r Andes. Bwriad Liliana Freeman yw cynorthwyo gyda'r dosbarthiadau yn Commodora Rivadavia.

## Cyhoeddi yn y Gymraeg

Mae'n amlwg i gyrsiau ysgrifennu Glyn Evans yn 1999 ddwyn ffrwyth. Mae'r *Dravod* bellach yn llawer mwy swmpus ac ymddangosodd yn amlach ac yn llawer mwy prydlon yn ystod 2000. Mae myfyrwyr y dosbarthiadau yn bur gynhyrchiol ac nid prinder deunydd yw problem y golygydd bellach. Mae llawer mwy o amrywiaeth yn yr erthyglau ac estynnwyd apêl y papur i gynulleidfa llawer ehangach. Cynhwysir *'Adlais'* – cylchlythyr yr ysgolion Cymraeg yn rhan o'r *Dravod.* Gormod o gyfranwyr yw problem *'Adlais'* hefyd a chan nad oedd y *Dravod* yn mynd i ymddangos ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ym mis Rhagfyr penderfynwyd cyhoeddi rhifyn arbennig ohono i gloi'r flwyddyn. Yr athrawon sy'n bennaf gyfrifol am gasglu cyfraniadau i *'Adlais'*. Cyhoeddir *Llais yr Andes* gan ddwy a fu ar gwrs dwys

Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan yn 1998 – Gladys Jones o Esquel a Sandra de Pol o Drefelin. Bu hwn yn ddatblygiad cyffrous yn yr Andes ac yn dystiolaeth glir i'r gymuned yno ei bod hi'n bosibl newid patrymau methiant ac anobaith gyda pheth arweiniad, penderfyniad, a llafur.

## Diweddglo

Bu'r prosiect yn llwyddiant eleni a chan fod yr athrawon presennol yn aros yno hyd Orffennaf 2001, disgwylir y cynhelir cryn dipyn o weithgareddau yn ystod gwyliau'r haf. Soniwyd eisoes am drefnu gwersyll haf yn yr Andes yn y flwyddyn newydd. Bydd yr athrawon yno eleni yn y cyfnod holl-bwysig cyn i'r flwyddyn academaidd newydd ddechrau ym mis Mawrth. Bydd disgwyl iddynt gynorthwyo ac annog y pwyllgorau lleol i baratoi a threfnu ar gyfer y flwyddyn newydd. Bydd disgwyl iddynt hefyd roi arweiniad ynglŷn â'r dulliau mwyaf effeithiol o hysbysebu'r cyrsiau.

Teg nodi i'r athrawon gael cefnogaeth ragorol yn eu cymunedau eleni. Ceisiasant hyrwyddo'r gwaith ar bob achlysur posibl. Roedd yn bleser darllen eu dyddiaduron yn *Y Cymro* yn ystod y ddau fis diwethaf.

Rhoes cyd-lynydd lleol y prosiect Sra Luned Roberts de Gonzalez – lafur diflino i'r prosiect. Heb ei chefnogaeth hi, heb ei llafur a'i gweledigaeth, ni fyddai'r gwaith wedi mynd rhagddo mor llwyddiannus.

**HOLIADUR** ***CUESTIONARIO*** Gracias por su cooperación DIOLCH

Ydy amser y gwersi yn addas ar eich cyfer chi?
*¿Es conveniente para usted el horario actual de clases?*

| | |
|---|---|
| | Ydyn |
| | Go lew |
| | Nac ydyn |

Ydych chi'n credu fod safon y dosbarth yn addas ar eich cyfer chi?
*¿Es adecuado para usted el nivel de clase al que concurre?*

| | |
|---|---|
| | Ydw |
| | Go lew |
| | Nac ydw |

Beth ydy eich barn am safon y dysgu?
*Cuál es su opinión en cuanto a la calidad de la ensenanza?*

| | |
|---|---|
| | Ardderchog |
| | Da |
| | Go lew |
| | Annigonol |

Beth ydy eich barn chi am ansawdd y defnyddiau dysgu?
*Qué opina del material de ensenanza?*

| | |
|---|---|
| | Da |
| | Go lew |
| | Annigonol |

Sawl gwers yr hoffech chi gael pob wythnos?
*¿Cuántas clases por semana desea usted?*

| | |
|---|---|
| | 1 |
| | 2 |
| | 3 |
| | 4 |

Ydych chi am barhau i ddysgu Cymraeg flwyddyn nesaf neu yn y dyfodol?
*¿Tiene decidido seguir aprendiendo galés y asistir a clase el ano próximo y en el futuro?*

| | |
|---|---|
| | Ydw |
| | Falle |
| | Nac ydw |

Beth hoffech chi ei weld yn gwella?
*Que le gustaria mejor en las de galés?*

| | | |
|---|---|---|
| | Mwy o athrawon o Gymru | Más maestros galeses |
| | Mwy o ddefnydd fideo | Más uso de videos |
| | Mwy o gerddoriaeth | Más canciones y música |
| | Mwy o dapiau | Más cassettes |
| | Gwersi hirach | Clases más largas |
| | Y Dravod/Adlais yn amlach | El Dravod y Adlais más a menudo |
| | Nwyddau Cymraeg | Productos galeses |
| | Siop Gymraeg | Un negocio de libros y música gales |
| | Gweithgareddau i bobl ifainc | Más cosas para jóvenes |
| | Rhaglenni radio / teledu | Programmes de radio/TV |

Awgrymiadau eraill: *Otras sugerencias:*

| Pwy ydy'ch athro chi? | | Lle mae'ch gwersi? | | Beth ydy lefel y dosbarth? | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gabriel Restucha | | Gaiman | | Iniciales | |
| Rhian Jones | | Dolavon | | Blwyddyn 2 | |
| Juan Davies | | Trelew | | Blwyddyn 3 | |
| Sandra de Pol | | Rawson | | Blwyddyn 4 | |
| Delia Evans | | Porth Madryn | | Gloywi a Siaradwyr | |
| Nia Lewis | | Trevelin | | | |
| Rhys Ll Jones | | Esquel | | Sawl dosbarth yr wythons? | |
| Menna George | | Comodoro Rivadavia | | Un ✓ | Dau |
| Nans Rowlands | | | | | |

Gladys Jones